**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**i'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 drafft**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 drafft.

## Ein rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat. Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd imi o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn fy nghaniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Sefydlodd y Ddeddf hefyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (ASC) i sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol.

## Sylwadau Cyffredinol

Yn fy rôl fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, roedd 7% o'r cwynion a gefais yn 2019/20 yn ymwneud â materion cynllunio. Wedi dweud hynny, dim ond ychydig iawn o gwynion a gaf sy'n cyfeirio at y broses cynllunio datblygiadau. Maent yn ymwneud yn bennaf â materion sy'n gysylltiedig â chamweinyddu honedig mewn perthynas â phenderfyniadau cynllunio lleol a materion gorfodi, aelodau o awdurdodau cynllunio lleol yn torri eu Cod Ymddygiad a phroblemau ynghylch sut y mae awdurdod lleol perthnasol yn ymdrin â chwynion cynllunio.

Rwy'n gwerthfawrogi'r bwriad i adlewyrchu i raddau helaeth y camau allweddol a gofynion paratoi cynlluniau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau'r

Cynlluniau Datblygu Lleol cysylltiedig. Bydd y dull pragmataidd hwn yn sicrhau cysondeb ledled hierarchaeth cynlluniau datblygu, ac yn cynorthwyo gwell dealltwriaeth gan randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, o’r prosesau technegol a gweithdrefnol sy’n ofynnol i baratoi cynllun datblygu defnydd tir cadarn.

Rwyf hefyd yn croesawu’r bwriad i sicrhau y caiff cymunedau eu cynnwys mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon ar gam cynnar o'r broses, a bod hyn wrth wraidd y weithdrefn. Gobeithiaf y bydd y rheoliadau hyn a chanllawiau'r dyfodol yn sicrhau bod y CBCau yn defnyddio dulliau arloesol i ymgysylltu â’r bobl hynny sydd wedi'u tangynrychioli'n draddodiadol yn ystod ymarferion ymgynghori. Gwn o’n cwynion fod pobl anabl a phobl BAME, yn ogystal â phobl hŷn a phobl iau, yn llai tebygol o godi materion. Gan hynny, rwy’n synnu nad yw cyrff sy’n cynrychioli buddiannau’r bobl hyn wedi’u rhestru o dan y cyrff ymgynghori cyffredinol yn Atodiad 1.

Mae’r ymchwiliadau ‘ar ei liwt ei hun’ y gallaf bellach ymgymryd â nhw yn mabwysiadu ymagwedd ragweithredol i ymchwilio pan fydd gennyf amheuaeth resymol o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth. Byddwn yn annog CBCau i ystyried adroddiadau yr ymchwiliadau hyn. Maent yn gyfle i roi llais i’r di-lais a gallant gynnwys tystiolaeth o anghyfiawnder systemig a allai fod yn berthnasol i ddatblygiad Cynlluniau Datblygu Strategol mewn meysydd fel tai neu drafnidiaeth.

Rwyf wedi ymateb i ymgynghoriad y Rheoliadau Sefydlu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) gan dynnu sylw at fy mhryderon; er fy mod yn gwerthfawrogi’r egwyddor y dylid trin y CBCau yn effeithiol fel rhan o’r ‘teulu llywodraeth leol’, ar hyn o bryd mae’r cyfrifoldeb dros ystyried cwynion am CBCau yn ymddangos yn amwys a gofynnais i’r CBCau gael eu dynodi fel ‘awdurdodau rhestredig’ yn Atodlen 3 Deddf OGCC 2019. Bydd y weithred hon yn sicrhau bod y CBCau newydd yn dod o fewn fy awdurdodaeth yn llawn, a fy mhwerau i ymchwilio i gwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiannau gwasanaeth, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â Chynlluniau Datblygu Strategol.

**Cod Ymddygiad**

Bydd gan aelodau o CBCau, sydd hefyd yn aelodau o awdurdodau lleol neu barciau cenedlaethol, gyfrifoldebau gwahanol i’r CBC o ran paratoi Cynllun Datblygu Strategol a’i fabwysiadu, a chyfrifoldebau gwahanol i’r awdurdod cynllunio lleol ar gynlluniau datblygu lleol a phenderfyniadau cynllunio lle bydd y Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol yn penderfynu’r fframweithiau. Er y dylai fod cydymffurfiaeth ar draws hierarchaeth y cynlluniau, rwy’n pryderu y gallai hyn arwain at weld gwrthdaro rhwng buddiannau a chwynion oddi wrth y cyhoedd. Byddwn yn gofyn am gael esboniad clir o’r rolau gwahanol hyn mewn canllawiau yn y dyfodol a bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i aelodau.

Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i wneud pob aelod CBC (awdurdod lleol, parciau cenedlaethol ac aelodau cyfetholedig) yn ddarostyngedig i'r un Cod Ymddygiad a chyfundrefn safonau moesegol ag y mae pob un arall sy’n cyflawni rôl yng Nghymru, ac y bydd aelodau’r cyhoedd yn gallu cwyno i’m swyddfa os ydynt o’r farn bod aelod o CBC wedi torri’r Cod Ymddygiad.

**Ymdrin â Chwynion**

Mae nifer y cwynion a gaf ynghylch materion cynllunio, yn enwedig ynghylch ymdrin

â chwynion yn wael, hefyd yn pwysleisio'r angen y dylai gweithdrefnau cwynion clir fod ar gael i CBCau yn unol â'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol, fel yr amlinellir yn Neddf OGCC 2019, fel bod dull unffurf rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Sylwadau cloi**

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi.  Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed gennym, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, fy Mhennaeth Polisi (tanya.nash@ombudsman.wales).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Rhagfyr 2020**

*************************************************************************************